**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**8 Chwefror 2016**

# GWEITHGARWCH Y GWASANAETH YN YSTOD Y LLIFOGYDD DIWEDDAR

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y gweithgarwch diweddar gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod y llifogydd ledled y rhanbarth fis Rhagfyr 2015.

## Cefndir

2 Yn Rhagfyr 2015, bu llifogydd ar raddfa fawr ledled y DU; effeithiwyd ar sawl ardal yng Ngogledd Cymru a denodd hynny diddordeb y cyfryngau cenedlaethol a chryn sylw gwleidyddol.

3 Ar y penwythnos cyntaf yn Rhagfyr, effeithiodd llifogydd ar ardaloedd gerllaw Afon Dyfrdwy yn ardal Holt yn Wrecsam, Afon Conwy yn ardal Llanrwst a Threfriw ac ardaloedd mawr ym Miwmares a'r cyffiniau yn Ynys Môn.

4 Ar benwythnos y Nadolig, effeithiodd llifogydd hefyd ar leoliadau yng nghyffiniau Caernarfon yng Ngwynedd, ardaloedd arfordirol ger Abergele ac, am yr ail dro yn y mis, ar ardaloedd Afon Conwy a Chastell Biwmares.

## Gwybodaeth

5 Deliodd GTAGC â 35 o alwadau ar benwythnos cyntaf mis Rhagfyr, gan fynd at 18 o ddigwyddiadau gwahanol. Aeth criwiau achub dŵr GTAGC at 9 o ddigwyddiadau ac achub 4 unigolyn o gerbydau.

6 Ym Miwmares yr oedd y digwyddiad uchaf ei broffil yr aethpwyd ato yn ystod y penwythnos hwnnw. Treuliodd y Pwmp Cyfaint Mawr, sydd â'i gartref yn Llandudno, 19 o oriau'n llwyddo i atal y ffos o gwmpas Castell Biwmares rhag gorlifo.

7 Roedd penwythnos y Nadolig yn brysurach o lawer; deliodd y Gwasanaeth â 291 o alwadau ar Ddydd San Steffan a mynd at 45 o ddigwyddiadau gwahanol, gyda 12 ohonynt yn rhai lle'r oedd angen achub o geir mewn dŵr llifogydd. Cynorthwywyd tri o bobl i ddianc o'u cartrefi.

8 Bu dau ddigwyddiad mwy o faint ar Ddydd San Steffan pryd y defnyddiwyd pympiau cyfaint mawr; roedd y cyntaf yn Llanddulas pryd y defnyddiwyd y pwmp cyfaint mawr o Landudno; roedd yr ail ddigwyddiad ym Miwmares pryd y defnyddiodd GTGAC y Pwmp Cyfaint Mawr o'r Drenewydd (Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru) dan drefniadau adrannau 13 ac 16 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Mae'r trefniadau hyn yn caniatáu i wasanaethau tân ac achub cyffiniol roi cymorth i'w gilydd.

9 Problem ychwanegol ar Ddydd San Steffan oedd fod y llifogydd wedi golygu nad oedd modd mynd ar hyd yr A55 ger Bangor na'r A5 yng Nghapel Curig.

## Argymhelliad

10 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn.